**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 18-00(Cofnodion)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 29 Tachwedd 2000

**Amser:** 2.00 - 5.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presenoldeb**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | (Etholaeth) |
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | De Ddwyrain Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |
| **Swyddogion** | (Adran) |
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| Carolyn Williams | Dilynwr gwaith |

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Yr Adran Ddiwydiant |
| Stephen Phillips | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Gareth Edwards (eitemau 1-4) | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Anne Stephenson (eitemau 1-4) | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Lisa Dobbins (eitem 4) | Yr Uned Ddatblygu Cynaliadwy |
| Rachael Clancy | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Helen Usher (eitem 5) | Cyn Glerc |

**Ymgynghorydd Arbennig**

Jim Driscoll (eitem 5)

**Cyfranwyr allanol**

| | |
|---|---|
| Syr David Rowe Beddoe | Cadeirydd, WDA |
| Graham Hawker | Prif Weithredwr, WDA |
| Graham Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi Strategol, WDA |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Gareth John | Swyddog Cynorthwyol |

**Eitem 1 - Sylwadau Agoriadol**

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a'u hatgoffa y caent siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dymuniad. Gobeithiai fod pawb yr oedd arnynt angen clustffonau, ar gyfer cyfieithu neu chwyddo sain, wedi eu cael. Atgoffodd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fuddiannau posibl, os nad oeddent yn sicr, mewn perthynas â'r eitemau a oedd i'w trafod.

1.2 Atgoffodd yr aelodau ei bod, yn unol eto â'r arfer yn y rhan fwyaf o'r pwyllgorau eraill, wedi

gosod y cofnodion a’r camau gweithredu a oedd heb eu cyflawni ar ddiwedd yr agenda. Byddai’n falch o gael gwybod a oedd gan yr aelodau farn ar hyn ac a ddymunent i’r arfer hon barhau.

1.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at erthygl ddiweddar yn y Western Mail ynghylch cynigion ar gyfer datblygu economaidd a gyflwynwyd gan y Blaid Geidwadol. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at lefarydd y blaid yn mynegi pryderon ynghylch gorgyffwrdd rhwng y rhain ac adroddiad drafft y Pwyllgor ar gymorth busnes. Dywedodd, er y derbynnid bod yr aelodau’n gwisgo hetiau eu pleidiau gwleidyddol tra oeddent yn gweithio oddi mewn i’r Pwyllgor, ei bod hefyd yn bwysig, pan ddeuai’r Pwyllgor i gasgliadau, fod y rhain yn dderbyniol gan bob aelod - neu dylai aelod ddatgan yn eglur nad oedd yn eu cefnogi. Teimlai ei bod yn amhriodol i un blaid ennill mantais wleidyddol drwy achub y blaen ar waith y Pwyllgor.

1.4 Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch statws y casgliadau yr oedd y Pwyllgor yn eu datblygu ac, o gofio bod rhywfaint o’r drafodaeth wedi ei gynnal hyd hynny mewn cyfarfodydd anffurfiol, y graddau y gellid eu hystyried yn farn gytunedig y Pwyllgor. Tynnwyd sylw gan rai o’r aelodau at beryglon trafodaethau anffurfiol nad oeddent yn cael eu cofnodi.

**Eitem 2 - Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

2.1 Wrth siarad am ei adroddiad nododd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Byddai cyfarfod nesaf y Tasglu Dur ar 18 Ionawr.
- Clywsai fod gwerthu Hyder Business Services Sales i Nomura, a oedd yn gysylltiedig â 1,850 o swyddi yn y DU - a 250 ohonynt yng Nghymru - yn debygol o olygu y byddai’r tîm rheoli presennol yn aros yn ei le.
- Ymwelsai â LGE yr wythnos hon. Cyfeiriodd at gyfuno’r cwmni a Philips a oedd yn digwydd ar y pryd a dywedodd mai’r disgwyl oedd y byddai cynnydd y cynnyrch tiwbiau pelydrau cathod yng Nghasnewydd .
- Yn y cyfarfod blaenorol cyfeiriasai at Ledwood Engineering a aethai i law’r derbynnydd. Ers hynny, prynwyd y cwmni gan ei reolwyr ac yr oedd hyn wedi arwain at ffurfio Ledwood Mechanical Engineering Cyf. a diogelu dros 100 o swyddi.
- Yr oedd Partneriaeth Cyllid Cymru i gyflwyno achos i’r Pwyllgor Monitro o blaid cynnig diwygiedig o £20.8 miliwn yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr. Dywedodd eu bod yn ceisio caniatâd y CE ar gyfer y rhaglen fesurau.
- Dywedodd fod y grp ‘gorchwyl a gorffen’ ar gyfer Amcan 1 a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi ei sefydlu bellach. Yr oedd yn ffyddiog y byddai’n dyfeisio system ar gyfer arolygu llwyddiant y rhaglen Amcan 1.

2.2 Cyfeiriodd aelod arall at bapur a gyflwynwyd yn flaenorol i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd (ar 1 Rhagfyr 1999) a nododd y byddai angen cyflwyno cynllun Cymhorthion Gweithredu i’r CE

ar yr un pryd â'r Ddogfen Rhaglennu Sengl. Holodd a oedd hyn yn golygu ein bod bellach wedi methu'r dyddiad cau. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hynny'n wir.

2.3 Gofynnwyd, mewn perthynas â'r Cymhorthion Gweithredu, ai realistig oedd disgwyl i'r Trysorlys lacio ei bolisi yn erbyn cyfraddau treth gwahaniaethol. Os nad ydoedd, yr oedd yn amheus a oedd unrhyw bosibiliad realistig o lwyddiant i ymweliad y Gweinidog â Brwsel. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn llwyr gydnabod y rhwystrau y byddai'n gorfod eu goresgyn er mwyn llwyddo. Er hynny, ni chafodd wrthwynebiad llwyr o fewn y Trysorlys ac yr oedd datganiad y Canghellor cyn y gyllideb wedi cynnwys rhai arwyddion addawol. Ond llwyr gydnabu nad oedd y mater wedi ei setlo a'i fod yn wynebu brwydr. Yn ei dyb ef, yr oedd hyn yn fater mor bwysig fel ei fod yn gorfod gwneud popeth yn ei allu a gobeithiai y câi gefnogaeth lawn y Pwyllgor i wneud hynny.

2.4 Gwnaethpwyd nifer o bwyntiau yn y drafodaeth:

- Yr oedd yn bwysig i LGE droi at gynhyrchu setiau teledu sgrîn gwastad os ydoedd i aros yn y rheng flaen o ran ei dechnoleg.
- Yr oedd yr ofnau ynghylch y perygl o golli swyddi yn Sain Tathan yn bryder mawr ond yr oedd y Gweinidog yn fwy bodlon ynghylch y sefyllfa nag yr oedd o'r blaen.
- Yr oedd y cynnydd mewn ymchwil a datblygu i'w groesawu ond yr oedd y ffigur llinell sylfaen o 1.2% a grybwyllwyd yn ymddangos yn rhy isel. Nodwyd bod rhan fawr o'r gwariant hwn wedi dod o arian y Llywodraeth ac mai ychydig iawn o hynny a oedd wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ddarparu nodyn i egluro'r ffigur o 1.2%. [**Cam Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**]
- Nododd aelod fod y grp gorchwyl a gorffen ar Amcan 1 i fod i adrodd i'r Pwyllgor Monitro ar 15 Rhagfyr - ddeuddydd ar ôl cyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Cytunwyd y gellid darparu'r adroddiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 13 Rhagfyr ond, gan na fyddai wedi ei drafod gan y Pwyllgor Monitro, ni ellid ond ei ddarparu er gwybodaeth.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd y Tasglu Dur nid yn unig oherwydd nifer y rhai a gyflogid yn uniongyrchol yn y sector ond oherwydd yr effeithiau 'lluoswr' mewn cwmnïau eraill. Cytunai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn llwyr â hyn ac ychwanegodd fod hyn yn dangos mor bwysig oedd ceisio amrywiaethu'r economi fel y gellid lleihau'r effaith bosibl oddi wrth broblemau mewn sector penodol ar yr economi'n fwy cyffredinol.
- Nodwyd lansio Envirowise Wales a chwestiynodd un aelod, os oedd angen ei ail-lansio a rhoi bathodyn newydd iddo, a oedd yr arian hwn wedi ei wario'n dda.

**Eitem 3 - Adolygiad Hanner Blwyddyn a Chynllun Corfforaethol y WDA**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Syr David Rowe Beddoe a'i longyfarch ar ei urddo'n farchog ers y tro diwethaf iddo ymddangos yn y Pwyllgor. Croesawodd Graham Hawker, a oedd newydd

ymuno â’r Awdurdod fel Prif Weithredwr.

3.2 Dywedodd Syr David Rowe Beddoe fod y WDA o fewn cyrraedd yr holl dargedau am y flwyddyn heblaw hwnnw ar gyfer buddsoddi sector preifat a fyddai’n is o tua 10% yn ôl yr hyn a awgrymid gan y rhagolygon diweddaraf. Dywedodd ei fod yn arbennig o falch o nodi bod y WDA o fewn cyrraedd y targed gofodol o 35:65, a oedd wedi gofyn cryn ymdrech gan ei staff. Dywedodd fod yr adolygiad pum-mlynyddol yn mynd rhagddo’n dda’n awr. O wybod bod y flwyddyn wedi bod yn un llwyddiannus, yr oedd y Cynllun Corfforaethol wedi ei seilio ar hwnnw ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Cyfeiriodd, yn benodol, ar y pedair blaenoriaeth yr oeddent wedi eu gosod ar eu cyfer: cynyddu cyfranogiad, ychwanegu gwerth, rhyngwladoli, a chynyddu menter.

3.3 Croesawodd yr aelodau y llwyddiant sylweddol a gafodd y WDA wrth gyrraedd y targedau. Yn y drafodaeth nodwyd bod:

- Lefel cyfanswm y buddsoddi sector preifat yn agored i newidiadau yn y cymysgedd o fuddsoddi - er enghraifft, yr oedd dwysedd cyfalaf isel mewn prosiectau canolfannau galwadau, at ei gilydd. Nododd Syr David Rowe Beddoe fod buddsoddiad o dros £500 miliwn, beth bynnag fyddai’r ffigur terfynol yn ôl eu targed penodol, yn foddhaol iawn yn ymarferol.
- Bu rhywfaint o drafodaeth am y modd y gweithredai cyllideb yr Awdurdod pan ymgymerai â swyddogaethau newydd. Nodwyd, er y câi cyllid ei gorlannu’n aml yn y tymor byr ar gyfer y gweithgareddau newydd, fod hyn yn dueddol o ddod i ben yn eithaf buan ar ôl trosglwyddo ac y câi’r cyllid ei gynnwys oddi mewn i’r dyraniad cyllidebol cyffredinol i’r Awdurdod a gâi ei negodi â’r swyddogion.
- Dywedodd Graham Hawker nad oedd wedi ffurfio barn bendant ynghylch rheoli’r Awdurdod ac yntau ond wedi bod yn ei swydd am wyth niwrnod, ond nad oedd yn awyddus i gyflwyno gormod o newidiadau. Teimlai ei bod yn bwysig darparu eglurder mewn rolau rhwng y canol a’r rhanbarthau a theimlai mai’r ddelfryd oedd cael corff na fyddai ymyrryd sylfaenol ag ef ond a âi drwy broses o newid parhaus cyd-drefnedig.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y modd y byddai cynigion i gynnwys Cyswllt Busnes yn y WDA yn cysylltu â’i adolygiad pum-mlynyddol, dywedodd Mr Hawker mai’r allwedd, yn ei farn ef, oedd dynodi’r hyn a ddymunai’r cleient. Os oedd y cleient yn ystyried bod y corff yn un cymhleth, yr oedd angen ei newid. Dywedodd Syr David Rowe Beddoe, os câi swyddogaethau newydd eu trosglwyddo i’r Awdurdod, y gobeithiai y byddai’r Cynulliad Cenedlaethol yn dweud wrth yr Awdurdod yr hyn y dymunai iddo ei wneud ond yn gadael i’r Awdurdod benderfynu sut i’w wneud.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y trefniant ar gyfer hyrwyddo masnach ryngwladol, dywedodd Mr Hawker mai’r peth pwysig yn awr, beth bynnag fo teimladau rhywun ynghylch y penderfyniad a wnaethpwyd yn ddiweddar, oedd ei gael i weithio.
- Dywedodd Mr Hawker ei fod yn fodlon ar y cynnig i sefydlu bwrdd polisi economaidd ar yr amod mai bwrdd polisi fyddai ac na fyddai’n cymryd rhan fel corff gweithredol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y canfyddiad o’r WDA ymysg busnesau, dywedodd

Mr Hawker ei bod yn anorfod yng nghwrs blwyddyn na allent ond cynorthwyo ychydig o'r holl fusnesau yng Nghymru. Yr oedd yn anochel bod rhaid iddynt ddethol yn ôl yr hyn a roddai fwyaf o fudd iddynt am eu harian. Nid oedd yn syndod, felly, na fyddai cysylltiad rhyngddynt a'r mwyafrif helaeth o fusnesau yng nghwrs y flwyddyn.

- Bu rhywfaint o drafodaeth ar y diffiniadau o swyddi 'a grewyd' a rhai 'a ddiogelwyd' ac a fyddai'n fwy priodol cyfrif swyddi 'a gollwyd' hefyd. Yr oedd y WDA yn casglu gwybodaeth am swyddi y gwyddai eu bod wedi eu colli ac, er nad oedd hyn yn fanwl iawn, teimlai ei bod yn weddol ystyrlon o'u hystyried dros tymor hwy.
- Nodwyd bod y WDA o'r farn bod ei ddiffiniadau i ddiben asesu niferoedd o swyddi a phrosiectau mewnfuddsoddi yn well na'r rhai a fabwysiadwyd gan y Biwro Buddsoddi ym Mhrydain. Fodd bynnag, yr oedd angen cyfrif ffigurau yn ôl meini prawf y corff hwnnw er mwyn gallu cymharu â Lloegr.
- Bu rhywfaint o drafod am y diffiniadau o fewnfuddsoddwyr a chwmnïau cynhenid a nodwyd y gallai cwmni symud yn ôl ac ymlaen rhwng y categorïau oherwydd newidiadau mewn perchnogaeth. Yr oedd angen gweithio ar ddatblygu'r cysyniadau hyn ac yr oedd hyn ar y gweill gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Bu rhywfaint o drafod ar sefyllfa Cymru mewn perthynas â masnach electronaidd ac adroddiadau a fynegai farn groes i'w gilydd am sefyllfa Cymru o'i chymharu â gweddill y DU. Ymddangosai fod hyn yn fater o ddiffinio - mae Cymru'n datblygu'r gallu i gyflawni masnach electronaidd ond yr oedd yn araf i ymgymryd â hi. Gwneir cynnydd da ond mae Cymru'n dal i fod ar ôl y DU. Nododd y Cadeirydd fod blaenraglen waith y Pwyllgor yn cynnwys astudiaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Graham Moore ei bod yn fwriad gan y WDA ymgymryd â chodi gwerth tua £7 miliwn o ffatrïoedd parod yng ngogledd Cymru eleni a'r flwyddyn nesaf. Câi rhywfaint o hynny ei ariannu ag arian Amcan 1.

3.4 Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ei fod yn falch o glywed bod ffigurau diweddaraf yr Awdurdod yn dangos rhywfaint o welliant yn y perfformiad ar fuddsoddi sector preifat. Cytunai fod angen gwella gosod targedau a dywedodd mai'r flaenoriaeth gyntaf oedd sefydlu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Cytunai â sylwadau Mr Hawker ar gymorth ar gyfer allforion. Y peth allweddol oedd bwrw ymlaen â darparu gwasanaethau i fusnes, nid newid y dull o'u trefnu o hyd.

3.5 Wrth grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd mai braf iawn oedd gweld bod yr Awdurdod wedi llwyddo'n dda â'i dargedau gofodol a derbyniai sicrwydd y WDA ei fod o fewn cyrraedd y targedau eraill. Nododd ei bod yn bwysig dod yn fwy soffistigedig wrth osod targedau a gobeithiai y byddai'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a'r bwrdd economaidd (os câi ei gymeradwyo) yn cyfrannu at hynny. Dywedodd ei bod yn amlwg bod y Pwyllgor yn cymeradwyo dull gweithredu'r Cynllun Corfforaethol.

3.6 Yn olaf, dywedodd Graham Moore y byddai'r WDA yn dechrau ar unwaith bron ar broses o ymgynghori ynghylch y cynllun er mwyn ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd. Nododd y Cadeirydd fod amseriad ystyriaeth y Pwyllgor o'r Cynllun yn hwyrach na'r hyn a fyddai'n

ddelfrydol am amryw o resymau a dywedodd y byddent yn ceisio cywiro hynny yn y dyfodol.

**Eitem 4 - Y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol - Cynnaliadwyedd ac Ynni Cynaliadwy**

4.1 Ynghylch y papur cyntaf, ar ddatblygu cynaliadwy a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol, nododd y Pwyllgor ei fod yn ymdrin â'r pwnc cymhleth hwn mewn modd darllenadwy. Nodwyd nad oedd yn dweud llawer iawn am gamau i'w cymryd gan y Pwyllgor am mai mater iddynt hwy ei benderfynu oedd hynny yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Nodwyd hefyd na ddylid ystyried datblygu cynaliadwy'n weithgaredd anghysylltiedig ond yn un yr oedd angen ymdrin ag ef yng nghyd-destun pa bynnag bolisi a oedd o dan ystyriaeth. Ar ben hynny, yr oedd yr un mor bwysig i ddiwydiannau traddodiadol, fel tanwyddau glo a ffosil, ag ydoedd i'r diwydiannau newydd.

4.2 Nododd yr aelodau fod rhan bwysig i'w chwarae gan gyrff anllywodraethol wrth ddatblygu polisïau cynaliadwy ac anogwyd tîm y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu'r strategaeth. [**Cam Gweithredu: Tîm y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol].** Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn cais i gyflwyno papur oddi wrth Gyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru ac y byddid yn trefnu hynny ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd.

4.3 Cyflwynodd Phil Williams ei bapur ar ynni cynaliadwy a dywedodd ei fod yn ymdrin â mater y bu'n ymwneud ag ef ers blynyddoedd lawer. Dywedodd mai'r pwyntiau allweddol oedd pennu targedau a strategaeth ofodol yn arwain at amserlen ar gyfer gweithredu a'r camau a oedd yn angenrheidiol i gyflawni hynny. Yn y drafodaeth, nodwyd bod gan Gymru amrediad unigryw o adnoddau ynni a'i bod mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain ym maes datblygu cynaliadwy. Sylwodd yr aelodau ar y gyd-ddibyniaeth bwysig rhwng y Fframwaith Gofodol Cenedlaethol, y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a datblygu cynaliadwy a barnasant ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwaith a gyflawnid ar y tri hyn wedi ei gydlynu. Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael Sue Essex mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod y materion hyn ymhellach. **[Cam Gweithredu: y Clerc]**

4.4 Yr oedd hefyd yn bwysig troi'r meddwl ar y mater hwn yn weithredu a dylai'r Cynulliad roi arweiniad lle y gallai. Nodwyd hefyd fod angen, wrth ymdrin ag ynni o adnoddau adnewyddadwy, roi sylw i amrediad llawn o faterion amgylchedd ehangach fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

4.5 Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd fod llawer iawn o gefnogaeth i'r egwyddorion yn y papurau: ar bennu targedau, strategaeth ofodol, amserlen, a'r newidiadau trefniadol mewn cynllunio a oedd yn angenrheidiol er mwyn eu cyflawni. Fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor a dymunai sicrhau eu bod yn cael eu datblygu o fewn y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Wrth wneud hynny, yr oedd yn bwysig ystyried datblygu cynaliadwy, nid fel

mater ar ei ben ei hun, ond fel un a oedd yn goleuo ac yn dylanwadu ar feddwl ar faterion eraill. Dywedodd fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r egwyddorion yn y papurau ond nododd, er mwyn rhoi pethau ar waith, y byddai angen sicrhau bod pobl yn deall pam yr oedd angen camau o'r fath, yn enwedig ar faterion fel ynni adnewyddadwy, er mwyn goresgyn gwrthwynebiad cyhoeddus. Gofynnodd i Steve Phillips a Gareth Edwards ddychwelyd â sylwadau'r Pwyllgor yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. **[Cam Gweithredu: Steve Phillips a Gareth Edwards**]

4.6. Dywedodd hefyd y byddai'n cyfeirio'r papur i sylw cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd ac y byddai'n ystyried sut i gysylltu pwyllgorau eraill â'r gwaith ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. **[Cam Gweithredu: y Clerc]**

**Eitem 5 - Adolygiad o Gymorth a Datblygu Busnes**

5.1 Diolchodd y Cadeirydd i Jim Driscoll am ei holl waith wrth gynghori'r Pwyllgor ac wrth baratoi'r adroddiad drafft. Diolchodd hefyd i Helen Usher, a oedd wedi parhau â'r gwaith hwn am gryn amser ar ôl gadael ei swydd fel Clerc i'r Pwyllgor. Dywedodd y dylai'r Pwyllgor anelu at gytuno ar adroddiad terfynol yn y cyfarfod ar 13 Rhagfyr ac iddo gael ei ddosbarthu wedyn ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Ymgymerid â hyn gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd er y gallai'r Pwyllgor ddewis cymryd rhan yn yr ymarfer hwn.

5.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch y lle y dylid ei roi i Gyswllt Busnes yn yr adroddiad terfynol. Mynegwyd pryder bod Cyswllt Busnes yn cael ei weld fel corff niwlog, byrhoedlog ac amhrofedig a'i berfformiad yn anghyson o gwmpas Cymru. Mynegwyd y farn y dylai'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r fynedfa i gymorth busnes gael ei gymryd gan gorff newydd ac un a fyddai'n atebol i gyrff sefydledig fel y WDA, Bwrdd Croeso Cymru, y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a phobl fusnes. Nododd rhai o'r aelodau ei bod yn ymddangos nad oedd llawer o ddefnydd ar Gyswllt Busnes gan fusnesau ac nad oedd hygrededd i'r 'brand'.

5.3 Mynegwyd amheuon gan eraill ynghylch aildrefnu gwasanaethau cymorth mor fuan - yn enwedig gan fod newidiadau eisoes wedi eu cychwyn gan Gyswllt Busnes ei hun. Yr oedd rhai aelodau o'r farn bod Cyswllt Busnes yn llwyddo i raddau helaeth yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru ac, os nad oedd y 'brand' yn adnabyddus, mai'r rheswm am hynny oedd bod y darparwyr yn hysbysebu eu gwasanaethau a'u henw eu hunain yn hytrach na Chyswllt Busnes. Hyd yn oed pe câi ei ailfrandio o dan enw newydd, byddai angen ymdrin â'r problemau sylfaenol o hyd ac, os mai felly yr oedd, gellid cadw'r enw presennol. Cafwyd awgrym hefyd y dylid penodi 'ombwdsmon' er mwyn arolygu gwaith y corff mynedfa. Dadleuai eraill nad oedd hyn yn briodol gan na fyddai'r corff yn gweithredu o dan statud. Fodd bynnag, yr oedd rhai aelodau o'r farn nad oedd hyn yn fater o reoleiddio'n bennaf ond o roi hyder i'r cyhoedd fod rhywfaint o arolygiaeth ar ei weithgareddau.

5.4 Yr oedd gwahanol safbwyntiau ynghylch y nifer priodol o ranbarthau y dylid rhannu trefniadaeth y corff newydd rhyngddynt. Yr oedd teimlad cyffredinol bod 22, un ar gyfer pob awdurdod lleol, yn ormod ond yr oedd gwahaniaeth barn ynghylch ai'r pedwar rhanbarth presennol oedd y nifer priodol neu a oedd angen rhagor. Un posibiliad oedd caniatáu rhai grwpiau llai o fewn y pedwar prif ranbarth.

5.5 Bu trafodaeth am statws y bwrdd polisi cyffredinol ac a ddylai fod yn gwango ai peidio. Y casgliad ar ôl cryn drafod oedd nad priodol fyddai sefydlu cwango newydd ar hyn o bryd.

5.6 Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch y graddau y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Yn benodol, trafodwyd lleoliad Masnach Ryngwladol Cymru. Yr oedd y ddadl dros ei leoli o fewn y WDA wedi ei seilio'n bennaf ar y cynsail na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd rhan mewn darparu gwasanaethau. Ar y llaw arall, a hwythau wedi mynd drwy ad-drefnu mawr, teimlai rhai aelodau mai annheg â'r staff fyddai peri rhagor o ansicrwydd iddynt ynghylch eu swyddi drwy ailystyried y mater hwn. Dadl bellach oedd bod cysylltiadau clòs iawn rhwng Masnach Ryngwladol Cymru a Masnach Ryngwladol Prydain, y corff a oedd yn cyfateb iddo yn y DU, a'i fod wedi ei gysylltu drwy hynny â Llywodraeth y DU a llysgenadaethau a swyddfeydd tramor. Byddai lleoli Masnach Ryngwladol Cymru mewn corff allanol yn ei gwneud yn anodd iddo gynnal y cysylltiadau hyn.

5.7 Bu rhywfaint o drafod ar leoliad Cymorth Rhanbarthol Dewisol a chytunwyd y dylid aros nes bod y Pwyllgor wedi edrych yn fanylach ar y cynllun hwnnw cyn ystyried hynny.

5.8 Ynghylch y mater o ailenwi Cyswllt Busnes, cytunwyd i adael hynny tan ar ôl y drafodaeth â chyrff busnes a drefnwyd ar gyfer y diwrnod canlynol a dod yn ôl ato yn y cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

5.9 Ynghylch y mater o sefydlu ombwdsmon, cytunodd Mike German i ymchwilio i'r materion a oedd yn gysylltiedig â gwneud hynny. [**Cam Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**]

5.10 Datganodd Brian Hancock fuddiant, gan iddo fod yn ddyn busnes bach a oedd wedi ceisio gwasanaethau cymorth oddi wrth wahanol gyrff sector cyhoeddus .

5.11 Cytunwyd bod angen i'r Pwyllgor gyfeirio'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn derbyn eu barn. Byddai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn dechrau ar y broses ymgynghori wedi i'r pwyllgorau fynegi eu barn.

5.12 Wrth grynhoi, gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad bod y Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad drafft yn amodol ar y pwyntiau penodol y byddai angen eu hystyried ymhellach. Cytunwyd ar hynny.

**Eitem 6**

6.1 Dywedwyd wrth yr aelodau ei bod yn ymddangos yn debygol bellach na fyddai angen ystyried yr adroddiad hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Ionawr ac felly nad oedd angen i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ei ystyried ar gymaint o frys ag y tybiwyd. Oherwydd prinder amser yn y cyfarfod presennol cytunodd yr aelodau i ystyried hyn eto.

**Eitem 7 - Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd**

7.1 Cytunwyd ar y rhain fel cofnod cywir yn amodol ar newid yr ail frawddeg o dan yr ail bwynt bwled ym mharagraff 2.6 i ddarllen "Eglurodd y Gweinidog fod angen hybu creu swyddi yn yr ardaloedd hynny yr oedd arnynt eu hangen."

**Materion yn Codi**

7.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnig i sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng cynrychiolwyr y Pwyllgor Monitro a'r Cynulliad er mwyn monitro'r cynnydd ar Amcan 1 yn fanwl. Yr oedd llythyr wedi ei anfon oddi wrthi hi a Mike German at Gadeiryddion y Pwyllgorau yn gofyn am drafodaeth ddechreuol a oedd i gynnwys nifer fach o aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Cynigiodd Christine Chapman ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar gynnydd ar Amcan 1.**[Cam Gweithredu: Christine Chapman]**

**Cam Gweithredu heb ei Gyflawni 18**

7.3 Holodd aelod a oedd hyn yn golygu y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu'n awr a oedd yn dymuno defnyddio'r hyblygrwydd a oedd ganddo ar ddiwedd y flwyddyn i bennu a fyddai arian ychwanegol yn mynd i'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd neu a oedd, mewn gwirionedd, yn gorfod rhoi'r arian at hynny. Cytunodd David Pritchard i ymchwilio. [**Cam Gweithredu: David Pritchard**]

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**